# NEWYDDION CYMUNED LLANGYNOG

(Medi 2013)

(Noddir gan Gyngor Cymuned Llangynog)

**Doedd dim cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Awst (egwyl yr haf):**

**Materion a godwyd o gyfarfodydd blaenorol y Cyngor Cymuned:**

**Difrod i Ffordd y Chwarel a Ffordd Pennant:** Mae rhywfaint o waith trwsio wedi ei wneud ar Ffordd Pennant ac mae gwaith yn digwydd ar ffordd y Chwarel. Cynllunir gwaith ar Ffordd Cwm Rhiwarth ar ôl hyn.

**Gwefan Gymunedol (Llangynog arlein):** Mae John Wilson, **Dol Eglwys**, yn gweithio ar sefydlu cynfffruf gwefan, a hoffai glywed gan unrhyw un sydd â chynnwys potensial neu awgrymiadau. Mae'n ystyried y cynnwys canlynol: **Cyfleusterau – Newyddion – Llety i Dwristiaid – Busnesau Lleol – Hanes y Pentref – ayyb.** Bydd y wefan yn **ddwyieithog** felly croesewir unrhyw **gymorth gyda'r cyfieithu**. Gellir cysylltu â John trwy e-bost yn y cyfeiriad hwn: **llangynog@yahoo.co.uk.**

**Bagiau sbwriel du newydd:** Wedi derbyn cwynion ynglŷn ag ansawdd y bagiau sbwriel du newydd, sydd wedi bod yn hollti a rhwygo, gan achosi i'r cynnwys orlifo, mae Chyngor Sir Powys wedi dweud bod y cwmni sy'n eu darparu wedi ymddiheuro am y gwall hwn ac y bydd yn rhoi rhai newydd, cyrfach, yn eu lle. Yn y cyfamser, argymhellir ichi **ddyblu'r bagiau** hyd nes i'r bagiau newydd gael eu dosbarthu.

**Derbyniad ffônau symudol:**

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi awgrymu y bydd pobl Powys ar fin elwa mwyaf o'r Prosiect Isadeiledd Ffonau Symudol (sy'n golygu buddsoddiad o £150 miliwn), a fydd yn ehangu gwasanaeth ffonau symudol i ardaloedd lle nad oes unrhyw wasanaeth ar hyn o bryd. Mae Russell George, ein AC, yn dilyn hyn ar ein rhan ni, ac mae'n gobeithio y byddwn yn clywed newyddion positif cyn bo hir.

**Defnyddio'r maes chwarae at ddibenion amgen:**

Atgoffir aelodau o'r cymuned a sefydliadau'r pentref y dylid gofyn am ganiatâd gan y Cyngor Cymuned, trwy'r Clerc, cyn defnyddio'r maes hwn ar gyfer **parcio gorlanw** neu **unrhyw weithgareddau eraill**.

**Cyfarfod Neilltuol: Nos Wener 6 Medi 2013 am 7.30 –** I drafod effaith y penderfyniad gan Gyngor Sir Powys i **gau ein toiledau cyhoeddus erbyn diwedd mis Hydref**, os na fydd y Cyngor Cymuned yn gallu ymgymryd â'u rhedeg.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fawrth 17 Medi 2013, 7:30 pm**

Os oes gan unrhyw un bryderon ynghylch unrhyw beth sy'n effeithio ar y pentref, neu awgrymiadau am bethau i'w gwella, cysylltwch â'r Clerc, neu ag un o'r Cynghorwyr ar y rhestr a arddangosir ar yr Hysbysfwrdd Cyhoeddus.

**Newyddion Eraill:**

**Amser hwyl: Dawns Llangynog 2013:** Mae Dawns Llangynog bob-dwy-flynedd i'w cynnal ar **Medi 7** yn y Neuadd Goffa. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal yr un gorau erioed, felly gwisgwch ecih ffrogiau crand (neu'ch siwtiau smart) ac edrychwch ymlaen at ddathlu tan yr oriau man.

**Collwr Pwysau'r Mis:** Collwr pwysau'r mis Clwb Colli Pwysau Weigh Hey fis **Gorffennaf** oedd **Pauline Nicholls**.

**Cornel Diolch:**

Hoffai **Janet Burton (Golygfa'r Graig)** ddiolch i bawb a ddaeth i'w **Pharti Penblwydd yn 60** yn y Neuadd Goffa, ac am eu rhoddion hael tuag at y **£500** a godwyd ar gyfer y **Clwb Cyswllt.** Roedd yn noson hyfryd gyda dawnsio a bwyd da.

Hoffai holl **aelodau** a **gwirfoddolwyr** y **Clwb Cyswllt** ddweud **diolch yn fawr** wrth **Janet Burton,** a wrthododd anrhegion ar gyfer ei phenblwydd diweddar ac, yn hael iawn, gofynnodd yn lle hyn y bobl rhoi tuag at y Clwb Cyswllt. Codwyd y swm anghredadwy o **£500** yn ei phenblwydd ar **20 Gorffennaf**. **Diolch yn fawr iawn Janet!**

**MAE EICH PENTREF YN EICH ANGEN:**

**A fedrech helpu mewn ARGYFWNG?** Mae angen **gwirfoddolwyr** arnom i ddysgu **adfywio cardio-pwlmonaidd** sylfaenol a chael **hyfforddiant diffibriliwr**. Pe bai **diffibriliwr** yn y pentref, **gellid ei ddefnyddio i helpu rhywun** wrth iddynt aros am **gymorth meddygol**. Os oes gennych ddiddordeb, **cysylltwch â**: **Ann Marsh 860424** neu **Jennie Eilbeck 860312 –** diolch.

**TREIALON CŴN DEFAID BLYNYDDOL LLANGYNOG:**

**Cynhelir y Treilaon Cŵn Defaid blynyddol ar Gaeau Lan (wrth ymyl Capel Carmel) trwy garedigwrydd Mr & Mrs John Ellis a Mr & Mrs Roger Ellis, Tŷ Newydd. Y Llywydd eleni fydd Mr Arwyn Owen. Croeso i bawb.**

**Gwe 13 Medi – Treialon Lleol a Rhanbarthol**

**Sad 14 Medi – Cystadleuaeth Agored**

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH – CAPEL PENUEL:**

Cynhelir **Gwasanaeth Diolchgarwch** yng **Nghapel Penuel** ar **Nos Fawrth 10 Medi** am **7:00 pm**. y **Pregethwr** fydd y **Parch. William Davies** o'r Bala. **CROESO I BAWB.**

**CYMRAEG I OEDOLION:**

Beth am wneud rhywbeth gwahanol y Medi hwn? Beth am wella eich **Cymraeg**? Am wybodaeth o **ddosbarthiadau yn ein hardal** ffoniwch **01686 614226/0800 876 6975** neu ebostiwch **mom@aber.ac.uk**, neu ymweld â'r wefan **www.learnwelshinmidwales.org.** Mae **dosbarthiadau i ddechreuwyr** yn dechrau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **23/09/13** a **phob dosbarth arall** yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **09/09/13.**

**Gwybodaeth gyffredinol:**

**Clwb Colli Pwysau Weigh Hey:** Mae'n cwrdd **bob Dydd Iau** am **5.30 pm** yn **Llyfrgell y Neuadd Goffa**.

Cynhelir **Swyddfa'r Post** yn y **Neuadd Goffa** bob Dydd Llun a Dydd Iau **9 am–2pm**.

Mae **Cydweithfa Bwyd Gymunedol** yn gwerthu **ffrwythau a llysiau ffres** bob **Dydd Mercher** yn y **Neuadd Goffa** rhwng **2.30–3.00 pm.** Am wybodaeth ffoniwch **Brenda Young** ar **860243**.

Dewch i fwynhau ein **Clwb Cyswllt:** Bob **Dydd Llun** o **11 am-2 pm** yn y **Neuadd Goffa.** Mae croeso i unrhyw un o **unrhyw oed.** Rydym yn cynnal **amrywiaeth o weithgareddau** bob wythnos (gw. **Beth Sy 'Mlaen**). Darperir **cinio**. Os oes gennych broblemau dod i'r Clwb, mae gennym **yrrwyr gwirfoddol**, a fydd yn fodlon **eich casglu o'ch cartref**. Ffoniwch Jennie Eilbeck ar **860312** neu Carol Jones ar **860230**.

**Y Dafarn Newydd: Bob Nos Iau Bingo 9 pm**

**Grŵp Darllen Llangynog:**

**Nos Lun 23 Medi State of Wonder gan Ann Patchett – cwrdd Glas y Dorlan**

**Nos Lun 28 Hydref Light Between Oceans gan M L Stedman – cwrdd Bryn Tanat**

**Cyswllt: Alison Layland 860457**

**BETH SY 'MLAEN - MEDI 2013**

| **Dydd** | **Dyddiad** | **Neuadd Goffa** | **Amser** |
|---|---|---|---|
| **Llun** | **2 Medi** | **Bingo'r Clwb Cyswllt** | **11am-2pm** |
| **Llun** | **2 Medi** | **Pwyllgor Adloniant** | **6.45pm** |
| **Iau** | **5 Medi** | **Clwb Colli Pwysau Weigh Hey** | **5.30pm** |
| **Sad** | **7 Medi** | **Dawns yr Hydref** | **7.30pm** |
| **Llun** | **9 Medi** | **Clwb Cyswllt (Hud a Lledrith – James Ashton)** | **11am-2pm** |
| **Mer** | **11 Medi** | **Cyfarfod W.I.** | **7pm** |
| **Iau** | **12 Medi** | **Clwb Colli Pwysau Weigh Hey** | **5.30pm** |
| **Llun** | **16 Medi** | **Clwb Cyswllt (Atgofion Miss Noreen Lloyd)** | **11 am- 2 pm** |
| **Maw** | **17 Gorff** | **Cyngor Cymuned** | **7.30pm** |
| **Iau** | **19 Medi** | **Clwb Colli Pwysau Weigh Hey** | **5.30pm** |
| **Gwe** | **20 Medi** | **Yoga gyda Paula** | **9.15-12.30pm** |
| **Sad** | **21 Medi** | **Cyngerdd Côr (i'w gadarnhau – gw. posteri)** | |
| **Llun** | **23 Medi** | **Clwb Cyswllt (Taith ar y Gamlas)** | **11-2pm** |
| **Iau** | **26 Medi** | **Clwb Colli Pwysau Weigh Hey** | **5.30pm** |
| **Gwe** | **27 Medi** | **Yoga gyda Paula** | **9.15-12.30pm** |
| **Llun** | **30 Medi** | **Clwb Cyswllt – Gweithgareddau** | **11 am- 2 pm** |

**EGLWYSI:**

**(Gweler Cylchlythyr yr Eglwys am fanylion gwasanaethau yn Sant Cynog a Santes Melangell)**

**CAPELI:**

**Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru:**

**Capel Penuel: Nos Fawrth 7 Medi, 7 pm:**

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
(Rev William Davies – Y Bala)

**Capel Carmel:**

**Wesleaidd:**

**Sul 1 Medi** Mrs Nesta Baker-Jones **2 pm**

**Sul 8 Medi** Rev J Hind **2 pm**

**Sul 22 Medi** Rev G Richards **6pm**

**Diolch i Alison Layland am y cyfieithiad Cymraeg. Eitemau ar gyfer rhifyn Hydref i Trevor Foster, The Old Rectory (llangynognews@hotmail.co.uk) erbyn 19 Medi.**